

# Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a Robert Donovan  
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mai 2023 0300 200 6565  
Amser: 09.30 [SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

---

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30–11.45)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau  
(09.30)

2 Papurau i'w nodi  
(09.30)

2.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at gadeiryddion y pwyllgorau  
(Tudalennau 1 – 2)

**Dogfennau atodol:**

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.2 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
(Tudalennau 3 – 4)

**Dogfennau atodol:**

Y Bil Bwyd (Cymru): Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 1 Mawrth



## **2.3 Llythyr gan y Gweinidog Ffyniant Bro**

(Tudalennau 5 – 6)

### **Dogfennau atodol:**

Cyllid ar ôl gadael yr UE [Saesneg yn unig]

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol [Saesneg yn unig]

## **2.4 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 7 – 8)

### **Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Cynhyrchion Organig

## **2.5 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

(Tudalennau 9 – 11)

### **Dogfennau atodol:**

Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – 6 Mawrth 2023

## **2.6 Llythyr gan Weinidog yr Economi at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 12 – 18)

### **Dogfennau atodol:**

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 8 Chwefror

## **2.7 Llythyr gan y Cadeirydd at y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes**

(Tudalen 19)

### **Dogfennau atodol:**

Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

## **2.8 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 20 – 21)

### **Dogfennau atodol:**

Cytundeb Partneriaeth Strategol a Masnach Rydd y DU ac Wcráin  
Ymateb Llywodraeth Cymru – 21 Ebrill 2022

## **2.9 Llythyr gan Fanc Datblygu Cymru**

(Tudalennau 22 – 23)

### **Dogfennau atodol:**

Sesiwn graffu ddilynol yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol ar 1 Mawrth –  
Cynllun Gwrthbwysu Carbon

## **2.10 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalen 24)

### **Dogfennau atodol:**

Mesurau rheoli ffiniau

## **2.11 Llythyr gan Weinidog yr Economi at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 25 – 41)

### **Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor – craffu ar gyllideb ddrafft  
Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24

## **2.12 Llythyr gan Weinidog yr Economi at Gyfarwyddwr Cydffederasiwn Busnes a Diwydiant Cymru**

(Tudalennau 42 – 44)

### **Dogfennau atodol:**

Adroddiadau am honiadau o gamymddwyn yn y CBI [Saesneg yn unig]

### 2.13 Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

(Tudalennau 45 – 47)

#### Dogfennau atodol:

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25; Ymgysylltu

### 2.14 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

(Tudalennau 48 – 49)

#### Dogfennau atodol:

Y gost o roi'r Bil Bwyd (Cymru) ar waith

## 3 Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE: Academyddion a melinau trafod

(09.30–10.30)

(Tudalennau 50 – 112)

Yr Athro Steve Fothergill, Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol, Prifysgol Sheffield Hallam.

Adam Hawksbee, Dirprwy Gyfarwyddwr, Onward

Joe Rossiter, Rheolwr Polisi a Materion Allanol, Sefydliad Materion Cymreig

#### Dogfennau atodol:

Papur tystiolaeth – Yr Athro Steve Fothergill [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth – Onward [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth – Y Sefydliad Materion Cymreig [Saesneg yn unig]

Briff Ymchwil

### Egwyl (10.30–10.40)

**4 Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE: Awdurdodau lleol**  
(10.40–11.40) (Tudalennau 113 – 118)

Y Cynghorydd James Gibson–Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys

Y Cynghorydd Mark Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant,  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd

Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [Saesneg yn  
unig]

**5 Y Bil Bwyd (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1**  
(11.40–11.45)

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y  
cyhoedd o weddill y cyfarfod**  
(11.45)

**Preifat (11.45–12.10)**

**7 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod**  
(11.45–12.00)

**8 Opsiynau ar gyfer ymweliad y Pwyllgor**  
(12.00–12.10)

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a  
Chysylltiadau Rhyngwladol  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

8 Mawrth 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad sy'n craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, gwnaethom nifer o argymhellion yn ymwneud â gwella gosodiad y gyllideb. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

*"Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau."*

O ganlyniad, gan ystyried y profiad o graffu ar y gyllideb eleni a'r nod o sicrhau gwelliannau i'r ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 a thu hwnt, byddai'n dda gennyf gael barn eich pwyllgorau mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn:

Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?

Gofynnir i chi gyfeirio yn eich ymateb at ba mor brydlon a pha mor ddefnyddiol oedd unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth a ddaeth i law, ac at safon y ddogfennaeth a/neu dystiolaeth hynny.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymatebion erbyn **dydd Gwener 28 Ebrill 2023**. Yna bydd eich safbwyntiau yn cael eu coladu a'u bwydo yn ôl i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i'w hystyried cyn y ddatl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Cyllideb 2024-25, a fydd yn cael ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gynhelir cyn toriad yr haf.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Darren Miller, AS,  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru,  
Caerdydd,  
CF99 1SN

e-bost: [darren.millar@senedd.cymru](mailto:darren.millar@senedd.cymru)

16 Mawrth 2023

Annwyl Darren

Diolch am y cyfle i ymddangos gerbron pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 1 Mawrth i roi tystiolaeth ynghylch Bil Bwyd (Cymru).

Cawsom drafodaeth ddefnyddiol am sicrhau cysondeb rhwng egwyddorion polisi ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n helpu'r pwyllgor i gynnig rhywfaint o dystiolaeth bellach am gwestiynau ynghylch sicrhau cysondeb polisi y tu allan i fy mhortffolio a gododd yn ystod y sesiwn.

Cyfeiriodd yr enghraifft gyntaf at y system gynllunio sy'n caniatáu sefydlu bwytai bwyd brys y tu allan i'n hysgolon. Yn wir mae angen mynd i'r afael â'r pellter rhwng bwytai bwyd brys ac ysgolon. Felly hoffwn dynnu eich sylw at waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn hynny o beth, ac yn enwedig at [Bwysau Iach Cymru Iach](#) sy'n cynnwys yr ymrwymiad pendant i gyfyngu ar nifer y siopau cludfwyd poeth a gaiff eu sefydlu o gwmpas ysgolon (gweler tudalen 11).

Cyfeirioch hefyd at y ffaith bod gan ysbytai'r GIG beiriannau sy'n gwerthu eitemau nad ydynt yn rhai iach. Eto, mae strategaeth [Pwysau Iach Cymru Iach](#) (tudalennau 17-18) yn canolbwyntio ar gynyddu'r opsiynau bwyd a diod iach mewn peiriannau gwerthu, a sicrhau eu bod yn apelio i bobl fel eu bod yn dod y norm. Erbyn 2030 y nod yw y bydd yr holl ddarpariaeth bwyd a diod i gleifion, staff ac ymwelwyr yn cadw at feini prawf iach llym, gan gynnwys o fewn ffreuturau, peiriannau gwerthu a siopau manwerthu ar safleoedd y GIG.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Cododd Luke Fletcher AS y drydedd enghraifft o bolisi canfyddedig nad oedd yn gyson sef sefydliad Big Bocs Bwyd (BBB) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod BBB yn cystadlu gyda llawer o'r sefydliadau cymunedol hyn eisoes am yr un llwyth o fwyd, a'r hyn a welsom bryd hynny oedd prinder bwyd -anawsterau yn y sefydliadau cymunedol hynny wrth gael gafael ar y bwyd hwnnw. Dadl Mr Fletcher oedd y gallai Strategaeth Fwyd Genedlaethol fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflwyno BBB Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl y sôn wedi arwain at drafferthion i sefydliadau cymunedol eraill gael gafael ar fwyd dros ben. Gan dynnu o'r profiad hwn rydym wedi ariannu Partneriaeth Fwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar. Drwy'r bartneriaeth hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) wrthi'n datblygu cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer swydd cydlynedd newydd a fydd yn cydlynu mentrau bwyd yn lleol drwy:

- adnabod a sefydlu cysylltiadau rhwng tyfwyr bwyd yn y sir
- nodi cyfleoedd i sicrhau cyflenwadau ychwanegol o fwyd dros ben da
- mapio gweithgarwch arall fel rhandiroedd a chysylltu prosiectau bwyd.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn yn egluro'r materion hyn i'r pwyllgor.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Department for Levelling Up,  
Housing & Communities

**Dehenna Davison MP**  
*Minister for Levelling Up*  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF

Darren Millar MS  
Chair, Economy, Trade, and Rural Affairs  
Committee

*By email*

17<sup>th</sup> March 2023

Dear Darren,

Thank you for your letter of 2<sup>nd</sup> March to the Secretary of State regarding your work on post EU funding arrangements in Wales. I am responding on his behalf as the Minister for Levelling Up.

Firstly, I thank the Committee for their work and commitment to scrutinise these very important matters.

While I am regrettably unable to appear before the Committee to give evidence, I would, however, be delighted to provide written evidence to the Committee to assist your work in this area.

Thank you again for writing.

With every good wish,

**DEHENNA DAVISON MP**

The Rt Hon Michael Gove MP  
Secretary of State for Levelling Up, Housing  
and Communities, and Minister for  
Intergovernmental Relations

2 March 2023

Dear Michael,

The Senedd's Economy, Trade and Rural Affairs Committee has agreed to undertake an Inquiry into post EU funding arrangements in Wales. This will build on the work previously undertaken by the Senedd's Finance Committee and focus on the areas of funding that fall within our remit including skills and research and development. The Committee intends to invite academics, think tanks, local authorities, previous EU funding beneficiaries and the UK and Welsh Governments to give evidence.

As the replacement of EU funding has proved to be a controversial issue – with the Welsh and UK Governments disagreeing on the impact – Members are very keen to take evidence from the UK Government as part of this Inquiry. Whilst Members are still discussing the specific details of the Inquiry, as I understand how busy Ministerial diaries are I wanted to write and invite you to a session on 17 May. I will be able to provide further details of the Inquiry once they are agreed by the Committee.

Kind regards,



Darren Millar MS

Temporary Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Lesley Griffiths AS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd  
Cymru, a'r Trefnydd

23 Mawrth 2023

Annwyl Lesley,

### Rheoliadau organig

Yn ystod cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddydd lau 16 Mawrth 2023, dywedoch chi wrth y Pwyllgor fod disgwyl i'r DU adolygu'r rheoliadau organig a'i bod yn gweithio'n unol â therfyn amser yr UE ym mis Rhagfyr 2023 (ac mae disgwyl i gydnabyddiaeth yr UE o gyfatebiaeth y DU i'r diben o allforio cynhyrchion organig i'r UE ddod i ben wedi hynny). Fodd bynnag, dywedoch chi hefyd, oherwydd cymhlethdodau'r ddeddfwriaeth, ei bod yn 'annhebygol iawn' y byddai rheoliadau newydd yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd 2023.

Hoffwn godi ambell bwynt dilynol:

- Beth fyddai goblygiadau methu'r terfyn amser yn 2023?
- A oes risg y gallai Cymru/y DU golli ei chydabyddiaeth o gyfatebiaeth organig â'r UE?
- Pa mor fawr yw'r mater hwn h.y. faint o gynhyrchwyr organig yng Nghymru sy'n allforio i'r UE?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

*Dam Morgan*

Darren Millar AS

Cadeirydd dros dro: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

[Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru](mailto:Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru)

23 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fy mod wedi bod mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Ffeiriau Gwledig a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

Fi gadeiriodd y cyfarfod, a hefyd yn bresennol yr oedd: Mairi Gougeon ASP,

Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater MSP, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth yn Llywodraeth yr Alban; Rebecca Pow AS, Gweinidog Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd, Mark Spencer AS, y Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Swyddfa'r Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU yn Swyddfa Gogledd Iwerddon; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Agorodd y cyfarfod gyda thrafodaeth am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) sydd, ar hyn o bryd, yn mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rhoddodd pob un o'r Llywodraethau'r wybodaeth diweddaraf am sut y maent yn mynd ati i nodi ac i gategoreiddio'r Bil, gan ganmol y ffordd gadarnhaol y mae'r gweinyddiaethau wedi ymwneud â'i gilydd yn hynny o beth. Buom hefyd yn trafod y rhaglenni deddfwriaethol seneddol sydd eu hangen er mwyn dargadw, diddymu neu ddiwygio eitemau unigol o ddeddfwriaeth. Wedyn, rhoddodd Llywodraeth yr Alban yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eu Cynlluniau Dychwelyd Ernes, a chynhaliwyd trafodaeth am gais Llywodraeth yr Alban i gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Wedyn, cyfeiriais at y sefyllfa sydd ohoni o ran prinder bwyd a diogelwch bwyd, gan dynnu sylw at yr angen i gydweithio ar y mater hwn, sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Buom yn trafod yr effeithiau cronol mae materion fel y rhyfel yn Wcráin a phrinder llafur yn parhau i'w cael, a sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y cyflenwad bwyd.

Cytunwyd i drafod mwy ar yr eitem hon yn y Cyfarfod Rhynglywodraethol ym mis Ebrill.

Yn olaf, cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban a minnau at y ffaith bod diffyg cynnydd ar wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar les anifeiliaid, gan wneud cais am ddiweddariad ysgrifenedig.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 17 Ebrill.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Bydd hysbysiad am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU:  
<https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs>.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/0093/23

Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

27 Mawrth 2023

Annwyl Paul,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Mai ac am sylw parhaus y Pwyllgor i oblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Cyn ateb y pwyntiau manwl rydych chi wedi'u nodi, gallai fod yn ddefnyddiol nodi'r cyd-destun heriol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ynddo mewn perthynas â'r Bil, fel yr esboniodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn ei lythyr dyddiedig 19 Ionawr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn gryf yn erbyn holl fwrriad y Bil. Yn gyffredinol, ein safbwynt ni yw bod cyfraith yr UE a ddargedwir (REUL), fel cyfraith yr UE cyn hynny, yn gweithio'n dda. Felly, ac eithrio diwygio'r gyfraith yn raddol fel sy'n briodol drwy gasglu tystiolaeth, ymgynghori â'r cyhoedd, a chwblhau trefniadau craffu deddfwriaethol yn y ffordd arferol, dros amser fel sy'n wir gydag unrhyw gorff o gyfreithiau, nid oeddem yn bwriadu diddymu, dirymu na diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir erbyn terfyn amser mympwyol am resymau ideolegol. Fodd bynnag, mae cynnig deddfwriaeth fel hon a fyddai, yn anochel, yn diddymu mesurau diogelu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hanfodol yn annerbyniol ac yn anghyfrifol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y defnydd o amser gwerthfawr gan Lywodraethau a deddfwrfeydd pan mai canlyniad rhan helaeth o'r gwaith hwn yn syml fydd cadw yn y gyfraith y darpariaethau hanfodol hynny y byddai'r Bil yn eu dileu'n awtomatig fel arall. Ni fydd y gwaith ofer hwn o unrhyw fudd i neb, ac mae'n ddefnydd anffodus o adnoddau cyfyngedig yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed gan Weinidogion Llywodraeth y DU.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 12**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ail, mae'r Bil yn ei hanfod yn Fil galluogi a bydd ei oblygiadau llawn yn cael eu dylanwadu gan ddewisiadau polisi Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch pa ddarnau o ddeddfwriaeth y dylid eu cadw, eu diwygio, neu eu gadael i fachlud haul. Oni bai a hyd nes y darperir y wybodaeth fanwl honno, rydym i gyd yn gweithio mewn sefyllfa ansicr iawn, gyda'r trafferthion mynychu amlwg sy'n achosi Llywodraeth Cymru, ac i'ch Pwyllgor mewn rôl graffu. Gobeithio y gallwn barhau i gydweithio wrth ymdrin â'r Bil hwn yn yr amgylchiadau anffodus hyn, gan gydnabod ein rolau sefydliadol neilltuol ond hefyd diddordebau cyffredin mewn perthynas â chyfanrwydd y setliad datganoli.

Mae'r atebion i'ch cwestiynau (mewn italig) wedi'u nodi isod.

*...a fyddech cystal â darparu'r canlynol i'r Pwyllgor:*

▪ *Eich barn ar effaith y Bil ar y sectorau uchod ac unrhyw feysydd eraill y credwch y gallai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor;*

Fel y nodwyd uchod, mae'r effaith ar bob sector yn dibynnu'n bennaf ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion y DU i gadw'r darpariaethau REUL presennol ai peidio. Byddai'r effaith hon yn negyddol iawn, yn yr achos mwyaf eithafol, pe caniateid i'r holl REUL presennol ddo i ben ym mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gwybodaeth fanwl gan Lywodraeth y DU am ei bwriadau.

▪ *Rhestr o Gyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) berthnasol a wnaed gan Weinidogion Cymru o fewn eich cylchoedd gwaith;*

Rydym yn datblygu rhestr o REUL a wnaed yng Nghymru, a byddwn yn darparu hon pan fyddwn mewn sefyllfa i wneud hynny.

▪ *Eich cynlluniau i ddefnyddio pwerau'r Bil mewn perthynas â safonau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel lles anifeiliaid;*

Fel yr eglurwyd uchod, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithio'n dda at ei gilydd. Rydym yn dymuno gweld y safonau presennol yn cael eu cynnal ym mhob maes sydd o fewn ein cylch gwaith, gan gynnwys lles anifeiliaid, ac nid oes gennym gynlluniau i ddefnyddio unrhyw bwerau o'r fath i newid safonau.

▪ *Gwybodaeth am ba drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a ph'un ai/sut y gellid cydgysylltu unrhyw newidiadau i REUL perthnasol, os caiff y Bil ei basio;*

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir iawn ar lefel Weinidogol, ac ar sawl achlysur, ein pryderon sylfaenol ynghylch natur ac amseriad y Bil. Rydym hefyd yn cael sgwrsiau rheolaidd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ar lefel swyddogion. Rydym wedi dweud yn glir wrth Lywodraeth y DU yn y trafodaethau hyn fod budd sylweddol mewn rhannu gwybodaeth ymlaen llaw am ei bwriadau, ac mewn cydweithio gwirioneddol ar gynigion sy'n ymwneud â REUL.

▪ *Manylion am unrhyw effaith ar gynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru pan fo'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor;*

Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth am y Bil wrth iddo fod ar gael. Rydym yn agored i gael trafodaethau rhagarweiniol yn gyfrinachol ynghylch goblygiadau posibl i fusnes y Senedd.

▪ *Eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â chytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit;*

Unwaith eto, bydd yr ateb gorau i hyn yn dibynnu ar ba ddarnau o REUL mae Llywodraeth y DU yn penderfynu eu dirymu, neu ganiatáu iddynt ddirwyn i ben, neu eu diwygio. Yn gyffredinol, nid ydym yn disgwyl y bydd effaith sylweddol yn y maes hwn, ond ni allwn fod yn sicr eto. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU beidio â chael gwared ar ddarnau o REUL sy'n hanfodol i'w rhwymedigaethau o dan unrhyw gytundebau masnach rydd, neu o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu yr UE a'r DU.

▪ *Eich barn ar effaith bosibl y Bil ar fasnach o fewn y DU, gan gynnwys sut y caiff ei weithredu ochr yn ochr â Deddf y Farchnad Fewnol 2020;*

Fel uchod, nid yw'r Bil yn ddo'i hun, o reidrwydd, yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fasnach o fewn y DU. Bydd unrhyw effaith yn dibynnu ar ba ddarnau o REUL sy'n cael eu diweddu neu eu newid. Nid ydym yn derbyn bod Deddf Marchnad Fewnol y DU yn llesteirio mewn unrhyw ffordd hawl y Senedd i ddeddfu ar faterion sydd o fewn ei chymhwysedd.

▪ *Eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â fframweithiau cyffredin o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.*

Unwaith eto, mae'n rhy gynnar i bennu'r effaith hon. Mae meysydd polisi lle dylai bodolaeth fframweithiau cyffredin gynorthwyo â'r materion a'r penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw newidiadau sylweddol i ddarnau o REUL.

*Bwyd a diod:*

• *Diogelwch bwyd – Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn nodi eu bod yn gyfrifol am dros 150 o ddarnau o REUL ar ddiogelwch bwyd yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â 39 o ddarnau ychwanegol yng Nghymru, lle mae ganddi gyfrifoldebau ehangach. Mae'r ASB yn nodi "rydym yn glir na allwn ddirwyn i ben y deddfau ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd heb beri dirywiad yn safonau bwyd y DU a risg sylweddol i iechyd y cyhoedd."*

Rydym yn cytuno. Nid yw'n hysbys eto sut mae Llywodraeth y DU yn bwriadu bwrw ymlaen yn y maes hwn.

• *Ymwahanu – mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod yn datgan bod gan hyn y potensial i ysgogi ymwahanu sylweddol os na chaiff newidiadau eu cysoni ar sail y DU a byddai hyn wedyn yn rhoi beichiau ychwanegol ar fusnesau Cymru, yn enwedig mentrau llai.*

Rydym yn credu bod angen i Lywodraeth y DU ymgysylltu'n llawn â'r llywodraethau datganoledig i ystyried yr holl faterion i ddiwydiant sy'n deillio o unrhyw newid arfaethedig mewn safonau, ac ystyried sut gellir rheoli hyn orau o fewn y setliadau datganoli. Fel yr amlinellir uchod, yn gyffredinol credwn fod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithio'n dda. Rydym yn disgwyl gwybodaeth glir gan Lywodraeth y DU am ba ddarnau perthnasol o REUL y mae'n dymuno eu newid a fyddai'n effeithio ar y sector bwyd a diod.

*Ffermio:* • *Safonau ffermio - dywed NFU Cymru y gallai llywodraethau ganfod eu hunain mewn sefyllfa yn brwydro yn erbyn camau brysiog i gau bylchau deddfwriaethol sydd wedi agor. Yn ôl NFU, bydd senarios o'r fath yn niweidiol i hyder a sicrwydd busnes a defnyddwyr. Maent yn rhybuddio bod rhaid gwobrwyo safonau uchel o'r farchnad, neu fel arall bydd cynhyrchwyr o Gymru yn cael eu rhoi dan anfantais gystadleuol. Maent yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraethau eraill i eirioli safonau uchel a gwrthsefyll ras i'r gwaelod.*

Unwaith eto, credwn fod angen i Lywodraeth y DU ymgysylltu'n llawn â'r Llywodraethau Datganoledig i ystyried yr holl faterion i ddiwydiant sy'n deillio o unrhyw newid arfaethedig mewn safonau, ac ystyried sut y gellir rheoli hyn orau o fewn y setliadau datganoli. Yn gyffredinol, credwn fod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithio'n dda. Rydym yn aros am wybodaeth glir gan Lywodraeth y DU am ba ddarnau perthnasol o REUL y mae'n dymuno eu newid a fyddai'n effeithio ar ffermio.

*Lles Anifeiliaid: • Dywed RSPCA fod REUL yn cynnwys rhai o'r newidiadau mwyaf totemig a phwysig yn lles anifeiliaid ac maent yn poeni y gallai safonau fod mewn perygl. Maent hefyd yn pryderu am newidiadau neu gael gwared ar gyfreithiau a gadwyd yn ôl ar Gymru, fel gwaharddiadau ar ddefnyddio hormonau milfeddygol a gwaharddiadau ar fewnforio anifeiliaid gwyllt a chynhyrchion morloi, a'r defnydd o anifeiliaid mewn ymchwil.*

Mae gan y Bil y potensial i gael gwared ar ddarnau hanfodol o REUL sy'n sail i agweddau pwysig ar les anifeiliaid. Unwaith eto, nid yw'n hysbys beth mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei wneud yn ymarferol yn y maes hwn. Rydym yn rhannu pryderon yr RSPCA am y posibilrwydd o ddirymu neu wneud newidiadau i ddarnau o REUL a gadwyd yn ôl sy'n effeithio ar y meysydd hynny. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU, fel rheol gyffredinol, sicrhau ei bod yn cynnwys y Llywodraethau Datganoledig yn ei gwaith ar REUL a gadwyd yn ôl a allai effeithio ar feysydd datganoledig.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**  
Gweinidog yr Economi  
Minister for Economy



**Lesley Griffiths AS/MS**  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd  
Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales,  
and Trefnydd

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Vaughan Gething

Gweinidog yr Economi

8 Chwefror 2023

Annwyl Lesley a Vaughan,

### **Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

Ar 25 Ionawr, bu'r Pwyllgor yn trafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a'i gynigion cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig. Mae Aelodau'n bryderus iawn am effaith bosibl y Bil ar Gymru yn y meysydd sy'n dod o dan ein cylch gwaith. Yn hynny o beth, penderfynwyd ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar y sectorau hyn: economi Cymru, masnach, sgiliau, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, y sector bwyd a diod a safonau lles anifeiliaid. Byddem hefyd yn ddiolchgar iawn pe gallech gadarnhau pa waith sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer y Bil.

Felly, a fyddechystal â darparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- Eich barn ar effaith y Bil ar y sectorau uchod ac unrhyw feysydd eraill y credwch y gallai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor;
- Rhestr o Gyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) berthnasol a wnaed gan Weinidogion Cymru o fewn eich cylchoedd gwaith;
- Eich cynlluniau i ddefnyddio pwerau'r Bil mewn perthynas â safonau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel lles anifeiliaid;
- Gwybodaeth am ba drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a ph'un ai/sut y gellid cydgysylltu unrhyw newidiadau i REUL perthnasol, os caiff y Bil ei basio;

- Manylion am unrhyw effaith ar gynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru pan fo'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor;
- Eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â chytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit;
- Eich barn ar effaith bosibl y Bil ar fasnach o fewn y DU, gan gynnwys sut y caiff ei weithredu ochr yn ochr â Deddf y Farchnad Fewnol 2020; a
- Eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â fframweithiau cyffredin o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Cynhaliodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad [alwad am dystiolaeth](#) ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno. Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r ymgynghoriad hwn a oedd yn berthnasol i'n cylch gwaith. Yn ogystal â darparu'r manylion y gofynnir amdanynt uchod, a wnewch chi ymateb i'r pwyntiau a amlinellir isod sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid yn eu cyflwyniadau i ymgynghoriad y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol.

Bwyd a diod:

- Diogelwch bwyd – Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn nodi eu bod yn gyfrifol am dros 150 o ddarnau o REUL ar ddiogelwch bwyd yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â 39 o ddarnau ychwanegol yng Nghymru, lle mae ganddi gyfrifoldebau ehangach. Mae'r ASB yn nodi "rydym yn glir na allwn ddirwyn i ben y deddfau ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd heb beri dirywiad yn safonau bwyd y DU a risg sylweddol i iechyd y cyhoedd."
- Ymwahanu – mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod yn datgan bod gan hyn y potensial i ysgogi ymwahanu sylweddol os na chaiff newidiadau eu cysoni ar sail y DU a byddai hyn wedyn yn rhoi beichiau ychwanegol ar fusnesau Cymru, yn enwedig mentrau llai.

Ffermio:

- Safonau ffermio - dywed NFU Cymru y gallai llywodraethau ganfod eu hunain mewn sefyllfa yn brwydro yn erbyn camau brysiog i gau bylchau deddfwriaethol sydd wedi agor. Yn ôl NFU, bydd senarios o'r fath yn niweidiol i hyder a sicrwydd busnes a defnyddwyr. Maent yn rhybuddio bod rhaid gwobrwyo safonau uchel o'r farchnad, neu fel arall bydd cynhyrchwyr o Gymru yn cael eu rhoi dan anfantais gystadleuol. Maent yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraethau eraill i eirioli safonau uchel a gwrthsefyll ras i'r gwaelod.

Lles Anifeiliaid:

- Dywed RSPCA fod RUEL yn cynnwys rhai o'r newidiadau mwyaf totemig a phwysig yn lles anifeiliaid ac maent yn poeni y gallai safonau fod mewn perygl. Maent hefyd yn pryderu am newidiadau neu gael gwared ar gyfreithiau a gadwyd yn ôl ar Gymru, fel gwaharddiadau ar ddefnyddio hormonau milfeddygol a gwaharddiadau ar fewnforio anifeiliaid gwyllt a chynhyrchion morloi, a'r defnydd o anifeiliaid mewn ymchwil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS  
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

28 Mawrth 2023

Annwyl Lywydd,

### Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth, trafododd yr Aelodau yr ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol a gyfeiriwyd at y Pwyllgor ar 14 Mawrth. Gan nad yw'r diwygiadau a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i fwriad y Bil, nid yw'r Aelodau'n teimlo bod angen gosod adroddiad ychwanegol. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor achub ar y cyfle hwn i gofnodi ei gefnogaeth o ddefnydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r Bil hwn i barhau â'u cefnogaeth i Wcráin a'i phobl.

Gan fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS er gwybodaeth iddo.

Cofion cynnes,



Darren Millar AS  
Cadeirydd Dros Dro: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Vaughan Gething AS  
Gweinidog yr Economi

28 Mawrth 2023

Annwyl Vaughan,

**Cytundeb Partneriaeth Strategol a Masnach Rydd y DU ac Wcráin**

Ar 23 Chwefror, gosododd Llywodraeth y DU y llythyrau rhwng y DU ac Wcráin yn cytuno ar ddiwygiadau i'r Cytundeb Partneriaeth Strategol a Masnach Rydd ("y Cytundeb"). Cyfeirir at y llythyrau fel 'Cytundeb Rhif 1'.

Ar 16 Mawrth, trafododd y Pwyllgor y cytundeb a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am y canlynol:

- Barn Llywodraeth Cymru ar y Cytundeb;
- Asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith debygol ar fasnach rhwng Cymru ac Wcráin.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,



Darren Millar AS  
Cadeirydd Dros Dro: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Darren Millar MS  
Cadeirydd Dros Dro  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
[SeneddEconomy@senedd.wales](mailto:SeneddEconomy@senedd.wales)

21 Ebrill 2023

Annwyl Darren,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth yn gofyn am farn ac asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y Cytundeb Masnach Rydd a'r Bartneriaeth Strategol rhwng y DU ac Wcráin ar Gymru, yn dilyn cyfnewid llythyrau ar 23 Chwefror.

Er bod Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael ei chynnwys wrth i negodiadau masnach ddatblygu, oherwydd natur y cytundeb hwn, sy'n ymateb uniongyrchol i ymosodiad Rwsia ar Wcráin ac ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth economaidd i Wcráin drwy lacio'r holl gwtâu cyfradd tariff a thariffau, mae rhan Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfyngedig.

Mae masnachu nwyddau ag Wcráin yn cyfrif am tua 0.05% o allforion Cymru a thua 0.01% o fewnforion. Mae ein ffigurau diweddaraf ar gyfer masnach yn dangos gostyngiad mewn gwerth masnachu nwyddau, o £25 miliwn yn 2021 i tua £11.7 miliwn yn 2022. O'r rhain gwerth mewnforion ac allforion oedd £2.2 miliwn a £9.6 miliwn yn y drefn honno. Mae'n deg priodoli'r gostyngiad hwn i'r rhyfel presennol

Er bod rhan Llywodraeth Cymru yn y cytundeb hwn yn gyfyngedig, rydym yn cefnogi'n llawn unrhyw fesurau i gefnogi Wcráin yn y rhyfel parhaus, ac rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd. Fodd bynnag, rwyf wedi'i gwneud yn clir yn byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gael ei chynnwys mewn unrhyw adolygiad o'r cytundeb yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**  
Gweinidog yr Economi  
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Darren Millar  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

28ain Mawrth 2023

Annwyl Darren,

Diolch am y gwahoddiad i ymddangos yn y pwyllgor yn gynharach y mis hwn ac am y cyfle i ateb cwestiynau ar strategaeth a pherfformiad Banc Datblygu Cymru.

Yn ystod y sesiwn, gofynnodd y pwyllgor am y cynllun gwrthbwyso carbon yr ydym yn cymryd rhan ynddo ac yn benodol a ydym yn ymwneud ag unrhyw blannu coed ar dir amaethyddol. Addewais ysgrifennu gyda manylion pellach.

Rydym yn gweithio gyda Carbon Footprint Ltd ac yn cymryd rhan yn eu rhaglen plannu coed yn y DU sy'n cydlynu plannu coed llydanddail brodorol Prydeinig. Mae cyfran helaeth o'u coed yn cael eu plannu ar dir yr ysgol, lle maent yn helpu i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion. Er nad ydym yn plannu unrhyw goed ar dir amaethyddol, mae Carbon Footprint wedi cyngori eu bod weithiau'n plannu ar dir fferm fel gwrychoedd.

Y lleoliadau ar gyfer y coed a blannwyd yn ein cynllun yw:

- Clwb Rygbl Dinbych
- Coleg Plas Dwbl
- Ysgol Iau Broadway
- Maes Carafanau Dianc Bowland

## Development Bank of Wales Plc

Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL  
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at [www.developmentbank.wales](http://www.developmentbank.wales)

Mae eu portffolio o brosiectau gwrthbwysu carbon yn gweithredu o fewn systemau rheoli ansawdd megis Gostyngiadau Allyriadau Wedi'u Gwirio â'r Safon Aur (VERs) a chredydau ardystiedig y Safon Carbon Gwiriedig (VCS). Mae eu holl brosiectau yn bodloni gofynion llym y Safon Sicrhau Ansawdd (QAS) ar gyfer Gwrthbwysu Carbon.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o ddi-ddordeb i'r pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir



**Giles Thorley**

**Prif Weithredwr**

**Development Bank of Wales Plc**

Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL  
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at [www.developmentbank.wales](http://www.developmentbank.wales)

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein Cyf / Our ref: VG/00111/23

Paul Davies AS  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru

5 Ebrill 2023

Annwyl Paul,

**Mesurau Rheoli Ffin**

Gallaf gadarnhau fel y cyhoeddais yn fy [natganiad](#) i'r Senedd heddiw fod [Model Gweithredu Targed](#) y Ffin *drafft* wedi ei gyhoeddi sy'n gosod model newydd arfaethedig ar gyfer mewnfario nwyddau i'r DU.

Daw hyn yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU ym mis Ebrill 2022 i oedi ymhellach cyn cyflwyno mesurau rheoli iechydol a ffytoiechydol (SPS) ar fewnfario nwyddau o'r UE. Bydd Llywodraeth y DU yn awr yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cynigion i fersiwn derfynol y Model Gweithredu Targed gael ei gyhoeddi.

Byddwn yn hapus iawn i drafod y trefniadau arfaethedig ymhellach gyda'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**  
Gweinidog yr Economi  
Minister for EconomyCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 24  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Darren Millar  
Cadeirydd Dros Dro,  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

5 Ebrill 2023

Annwyl Darren,

Diolch am eich adroddiad o fis Chwefror 2023 sy'n cynnwys adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24. Rydym yn ddiolchgar am waith y pwyllgor ac yn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Atodir ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs, North Wales & Trefnydd



**Vaughan Gething AS/MS**

Gweinidog yr Economi  
Minister for Economy



**Dawn Bowden AS/MS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip  
Minister for Arts and Sport, and Chief Whip



# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y gwaith Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24

05/04/2023

Gweler isod ymateb Llywodraeth Cymru i'r 22 o  
argymhellion a nodwyd gan Bwyllgor yr Economi, Masnach  
a Materion Gwledig.

# Cynnwys

<b>1. Argymhellion.....</b>	<b>4</b>
Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cyllid a ddaw yn lle cyllid Gwledig yr UE.....	4
Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl sut mae'n addasu cynlluniau i gyfrif am y diffyg o £21 miliwn o'r cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE.....	4
Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu o'r Cynllun Datblygu Gwledig, sut y cyfrifir amdanynt a pha fesurau rheoli a fydd yn cael eu defnyddio yn y Cynllun a ddaw yn ei le.....	5
Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau wrth gefn ar gyfer gorwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig o ganlyniad i gyllid sydd wedi'i orymrwymo.....	5
Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y cynlluniau a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a sut y maent wedi cael eu haddasu ar ôl ail-flaenoriaethu'r gyllideb yn y maes hwn.....	6
Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd y £6.5m o gyllideb y Gweinidog Newid Hinsawdd yn llenwi'r bwlch yn y gyllideb a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a pha feysydd a ariennir fel arfer gan y Cynllun Datblygu Gwledig na fydd yn cael eu hariannu o ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol mewn cyllid.....	7
Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch beth yw gwerth y contract Cyswllt Ffermio newydd a hefyd roi manylion yr asesiad a wnaed i sicrhau y bydd y contract newydd yn caniatáu i'r gwasanaeth gefnogi trosglwyddiad llawn ffermwyr i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.....	7
Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gymuned ffermio ac ar yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Dylai'r Gweinidog barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch canlyniad y gwaith monitro hwn chwe mis ar ôl i'r cynnydd mewn ffioedd ddod i rym ac yn rheolaidd ar ôl y dyddiad hwnnw.....	8
Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Dylai hyn gymryd sylw o hynt y Bil Bwyd (Cymru) ac, os oes angen, dylai roi senarios yn dibynnu ar ganlyniadau tebygol gwahanol gyda hynt y Bil drwy'r Senedd.....	8
Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor pryd bynnag y bydd cyllid yn cael ei ail-flaenoriaethu yng nghyllideb yr economi yn ystod 2023-24.....	9
Argymhelliad 11. Yn sgil ei awgrym y bydd llai o arian mewn ystod o feysydd, felly byddant yn gallu gwneud llai, dylai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i fesur y gostyngiad o ran darparu adnoddau. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi sut y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw faes o'i bortffolio os bydd gostyngiad o ran yr allbynnau a'r canlyniadau a ddisgwylir, yn enwedig nifer y busnesau a gefnogir...9	9



Argymhelliad 12. . Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y data sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r cynllun cyflenwi manwerthu, yn enwedig data sy'n cael eu defnyddio i asesu effaith anwastad yr heriau economaidd presennol ar y sector.....	9
Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud ar effeithiau tebygol cyllideb ar dwristiaeth sydd â llai o adnoddau ac sy'n lleihau'r gwariant marchnata ar nifer yr ymwelwyr i Gymru.....	10
Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod 2023-24 ar faint y Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth.....	10
Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw achos o ailffocysu neu ailbroffilio arian sy'n gysylltiedig â'r Warant i Bobl Ifanc a dylai ysgrifennu at Aelodau gyda'i farn ar ddyfodol y Warant yn ystod hydref 2023.....	11
Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru gyflenwi manylion i'r ddau bwyllgor am sut mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cydweithio ar gamau i gymell pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i gostau byw uwch.....	12
Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cyhoeddi fersiwn derfynol ei strategaeth arloesi newydd ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.....	13
Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw effaith y bydd ei strategaeth arloesi newydd neu unrhyw gynlluniau cysylltiedig yn ei chael ar ariannu a llinellau yn y gyllideb.....	13
Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith i amcangyfrif ei gwariant ar fewnffuddsoddiad a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor.....	14
Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhedeg Safleoedd Rheoli Ffiniau.....	14
Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch datblygiadau Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan gynnwys manylion y trafodaethau ar y mater rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.....	15
Argymhelliad 22. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cael arian gan Drysorlys y DU am wariant y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran perygl ynghylch paratoi i greu safleoedd rheoli ffiniau. Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o'r arian y mae wedi'i wario 'o ran perygl' ar Safleoedd Rheoli Ffiniau a faint o hynny sydd wedi cael ei ad-dalu gan Lywodraeth y DU.....	15

## 1. Argymhellion.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU am y cyllid a ddaw yn lle cyllid Gwledig yr UE.

Ymateb: **Derbyn**

Cyflawnodd adolygiad o wariant 2021 dair blynedd olaf ymrwymiad Llywodraeth y DU a nodwyd yn ei manifestio yn 2019, sef y byddai'n cynnal y gyllideb flynyddol i ffermwyr ym mhob blwyddyn o'r Senedd hon.

Ochr yn ochr â llywodraethau datganoledig eraill, dro ar ôl tro rydym wedi mynegi ein pryderon ynghylch y fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i Weinidogion olynol y DU, gan nodi nad yw'r cyllid y mae'n ei ddarparu yn cyfateb yn llawn i gyllid yr UE, ac rydym wedi gofyn am gyfleoedd ymgysylltu pellach i drafod y fethodoleg hon er mwyn unioni'r sefyllfa.

Ein gobaith yw y gallwn weithio gyda Llywodraeth y DU mewn ffordd ymarferol drwy'r trefniadau adolygu cysylltiadau rhynglywodraethol newydd.

Nid oes unrhyw arwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnig trefniadau cyllido hirdymor ar gyfer darparu cyllid yn lle cyllid yr UE. Yn lle hynny, mae'n bosibl y bydd yr adolygiad nesaf o wariant yn cadarnhau'r lefelau o gyllid a ddarperir yn lle cyllid Gwledig yr UE o flwyddyn ariannol 2025/26.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl sut mae'n addasu cynlluniau i gyfrif am y diffyg o £21 miliwn o'r cyllid a ddaw yn lle cyllid yr UE.

Ymateb: **Derbyn**

Rwyf wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi ffermwyr drwy gynnal lefel y cymorth a ddarperir drwy Gynllun Taliad Sylfaenol Cymru, bob blwyddyn ers 2021.

Mae gweddill y cyllid a ddarparwyd yn lle cyllid yr UE yn cael ei ddefnyddio'n llawn i ddechrau mynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd a galluogi proses bontio deg i Gymru gryfach, wyrddach a thecach. Caiff hyn ei gyflawni drwy fy Nghynlluniau Buddsoddi Gwledig, cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig gael ei gyflwyno.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu o'r Cynllun Datblygu Gwledig, sut y cyfrifir amdanynt a pha fesurau rheoli a fydd yn cael eu defnyddio yn y Cynllun a ddaw yn ei le.

Ymateb: **Derbyn**

Tynnodd yr adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn 2020 sylw at broblemau gyda'r broses o ddewis prosiectau economaidd-gymdeithasol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a nododd nad oedd y camau a oedd yn cael eu cymryd wrth ddewis ac arfarnu prosiectau yn gwneud digon i asesu a fyddai rhai prosiectau yn sicrhau gwerth am arian cyn y dyfarniad cyllid. Cymerodd Llywodraeth Cymru gamau pendant i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu o'r Cynllun Datblygu Gwledig fel a ganlyn:

- Rhoddwyd gwell rheolau dewis ar waith i sicrhau bod prosiectau yn cael eu dewis mewn ffordd agored a theg, bod prosiectau yn cael eu dewis yn nhrefn teilyngdod yn unol â gweithdrefn sgorio gyhoeddedig a bod gwerth am arian yn faen prawf ar gyfer pob dyfarniad i brosiectau.
- Cyflwynwyd system haenog newydd o fyrddau arfarnu hierarchaidd er mwyn sicrhau bod pob prosiect yn destun prosesau craffu a goruchwyllo priodol cyn i grant gael ei ddyfarnu.
- Ffurfiwyd cyfres o grwpiau gwneud penderfyniadau mewnol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu trafod a'u dogfennu'n briodol a bod trywydd archwilio yn cael ei gadw.

Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori'n llawn ym model arfarnu grant y Cynllun Datblygu Gwledig ac maent ar waith ar gyfer Cynlluniau Buddsoddi Gwledig presennol a Chynlluniau Buddsoddi Gwledig yn y dyfodol:

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau wrth gefn ar gyfer gorwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig o ganlyniad i gyllid sydd wedi'i orymrwymo.

Ymateb: **Derbyn**

Mae angen gorymrwymo cyllid ar lefel rhaglen er mwyn sicrhau bod Cymru yn defnyddio'r holl gyllid sydd ar gael o Raglen Datblygu Gwledig derfynol yr UE.

Caiff cynlluniau a chontractau unigol eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau ar y trywydd cywir. Mae addasiadau i raglenni yn cael eu caniatáu a'u cynllunio

hyd at fis Medi 2023 er mwyn addasu mesurau unigol, yn amodol ar farn y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a chymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae rhai cynlluniau unigol sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig bob amser wedi cynnwys ymrwymadau hirbarhaol, megis y taliad blynyddol y mae ffermwyr yn ei gael wrth greu ardaloedd newydd o goetir. Mae'r ymrwymadau hyn yn trosglwyddo i'r rhaglen 7 mlynedd nesaf ac, er bod y DU wedi ymadael â'r UE, bydd y dull gweithredu yn parhau gyda'r Cynlluniau Buddsoddi Gwledig yn darparu arian o'r gyllideb, cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig gael ei gyflwyno.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y cynlluniau a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a sut y maent wedi cael eu haddasu ar ôl ail-flaenoriaethu'r gyllideb yn y maes hwn.

Ymateb: **Derbyn**

Mae'r Cynlluniau Buddsoddi Gwledig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn cefnogi ffermwyr, rheolwyr tir a'r sector gwledig ehangach ar draws chwe thema ac yn cefnogi'r sector cyn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig gael ei gyflwyno;

- **Rheoli tir ar raddfa fferm** – darparu cymorth ar gyfer camau rheoli tir cynaliadwy ar y fferm,
- **Gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd** – gan gynnwys ffocws ar reoli maethynnau, gwella effeithlonrwydd tanwydd a bwyd anifeiliaid, ymgorffori dulliau gweithredu'r economi gylchol ac annog defnyddio ynni adnewyddadwy,
- **Effeithlonrwydd ac arallgyfeirio ar ffermydd** – gan gynnwys helpu ffermydd i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy fuddsoddi mewn technoleg a chyfarpar newydd a galluogi cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol,
- **Rheoli tir ar raddfa tirwedd** – darparu atebion sy'n seiliedig ar natur ar raddfa tirwedd, drwy ddull cydweithredol aml-sectoraidd,
- **Coetir a choedwigaeth** – cefnogi ein hymrwymiad i greu 43,000 hectar o goetiroedd erbyn 2030 a chefnogi'r gwaith o greu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren,
- **Cadwyni cyflenwi bwyd a ffermio** - creu diwydiant bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da yn fyd-eang am ragoriaeth gydag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn y byd.

Ni fu'n rhaid gwneud unrhyw addasiadau i'r Cynlluniau Buddsoddi Gwledig.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd y £6.5m o gyllideb y Gweinidog Newid Hinsawdd yn llenwi'r bwlch yn y gyllideb a ddaw yn lle'r Cynllun Datblygu Gwledig a pha feysydd a ariennir fel arfer gan y Cynllun Datblygu Gwledig na fydd yn cael eu hariannu o ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol mewn cyllid.

Ymateb: **Derbyn**

Mae mwy na £7m o gyllid Newid Hinsawdd yn cael ei ddarparu yn y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2025, er mwyn cyflwyno cynlluniau coedwigaeth megis y Cynllun Adfer Coetir, y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (yr oedd y ddau ohonynt yn arfer cael eu hariannu drwy Raglen Datblygu Gwledig yr UE) a chynllun newydd i wella'r ffordd y caiff coetiroedd presennol eu rheoli, fel rhan o'r gyfres o Gynlluniau Buddsoddi Gwledig.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch beth yw gwerth y contract Cyswllt Ffermio newydd a hefyd roi manylion yr asesiad a wnaed i sicrhau y bydd y contract newydd yn caniatáu i'r gwasanaeth gefnogi trosglwyddiad llawn ffermwyr i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ymateb: **Derbyn**

Mae Cyswllt Ffermio yn cael ei werthuso'n barhaus gyda'r canfyddiadau mwyaf diweddar yn cael eu cyhoeddi gan **SQW yn 2021**. Roedd un o'r argymhellion yn cynnwys yr angen i roi mwy o bwyslais ar amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, er mwyn ei gwneud yn bosibl i fwyd gael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy ac, ar yr un pryd, fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, yn ogystal ag atgyfnerthu a hyrwyddo ei ddarpariaeth yn y maes hwn.

Mae rhaglen nesaf Cyswllt Ffermio (1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2025), sydd â chontract gwerth cyfanswm o £22.9m, wedi'i datblygu er mwyn cyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Mae rheoli tir yn gynaliadwy wrth wraidd yr holl gymorth a ddarperir i ffermydd yn y dyfodol ac nid yw Cyswllt Ffermio yn eithriad. Yn ogystal â'r canlyniadau hyn, bydd rhaglen nesaf Cyswllt Ffermio hefyd yn helpu ffermwyr i drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

Bydd rhaglen nesaf Cyswllt Ffermio yn adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni dros y saith mlynedd diwethaf y bu ar waith drwy'r cymorth wedi'i dargedu parhaus a fydd yn helpu'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol i baratoi ar gyfer y cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaen.

Bydd y Rhaglen yn helpu pob busnes i wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd – gan gynnwys, er enghraifft, drwy feincnodi, trosglwyddo gwybodaeth, arloesi, defnyddio

technologau newydd neu sefydlu mentrau wedi'u harallgyfeirio – gan alluogi busnesau ffermio i leihau costau a gwneud mwy o elw, gan gynnal y safonau uchaf o ran iechyd a lles anifeiliaid a rheoli tir ar yr un pryd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro effaith codi ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gymuned ffermio ac ar yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Dylai'r Gweinidog barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch canlyniad y gwaith monitro hwn chwe mis ar ôl i'r cynnydd mewn ffioedd ddod i rym ac yn rheolaidd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Ymateb: **Derbyn**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru i gydweithio i fonitro effaith bosibl cynnydd mewn ffioedd sy'n cynnwys ystyried unrhyw effaith andwyol y gallai ei chael ar y gymuned ffermio, yr amgylchedd a lles anifeiliaid. Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn rhoi diweddariad iddo yn unol â'r amserlen a nodir yn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi llinell amser ar gyfer datblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Dylai hyn gymryd sylw o hynt y Bil Bwyd (Cymru) ac, os oes angen, dylai roi senarios yn dibynnu ar ganlyniadau tebygol gwahanol gyda hynt y Bil drwy'r Senedd

Ymateb: **Derbyn**

Yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yw datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol yn ystod tymor y Senedd hon. Mae cryn dipyn o ymchwil gefndir wedi'i chwblhau ac mae wrthi'n cael ei phrofi ar hyn o bryd drwy grwpiau ffocws rhanddeiliaid.

Mae Bil Bwyd (Cymru) wedi dargyfeirio adnoddau swyddogol oddi wrth y Strategaeth Bwyd Cymunedol. O ganlyniad i hyn, mae pryd y bydd gwaith ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn dechrau yn dibynnu ar beth fydd yn digwydd i'r Bil. Os bydd y Bil yn methu ar ddiwedd cyfnod 1 (mis Mai), bydd gwaith ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn ailddechrau bryd hynny. Os bydd y Bil yn methu'r bleidlais derfynol (mis Hydref), bydd gwaith ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn ailddechrau ar ôl hynny.

Os caiff y Bil ei basio fel y'i draftiwyd bydd angen i Lywodraeth Cymru ddechrau gweithio ar y swyddogaethau a grëir ganddo ar unwaith, sy'n golygu y caiff gwaith ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol ei ohirio am gyfnod amhenodol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor pryd bynnag y bydd cyllid yn cael ei ail-flaenoriaethu yng nghyllideb yr economi yn ystod 2023-24.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cael dau gyfle y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn i gofnodi unrhyw ddyraniadau i/o gronfeydd wrth gefn ac adlewyrchu newidiadau i'r llinellau sylfaen gan gynnwys y rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU. Caiff unrhyw gyllid sydd wedi'i ail-flaenoriaethu yn ystod y flwyddyn ei gofnodi fel rhan o'r broses hon. Gan fod y cyllidebau atodol yn cael eu cyhoeddi, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid rhoi diweddariad ar wahân i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 11.** Yn sgil ei awgrym y bydd llai o arian mewn ystod o feysydd, felly byddant yn gallu gwneud llai, dylai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i fesur y gostyngiad o ran darparu adnoddau. Dylai'r Gweinidog hefyd nodi sut y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw faes o'i bortffolio os bydd gostyngiad o ran yr allbynnau a'r canlyniadau a ddisgwylir, yn enwedig nifer y busnesau a gefnogir.

Ymateb: **Derbyn**

Gan y bydd cyllid yr UE yn dod i ben heb unrhyw gyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu yn ei le fel yr addawodd Llywodraeth y DU, bydd angen gwneud dewisiadau anodd. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i neilltuo adnoddau i'r meysydd hanfodol hyn, bydd angen inni ystyried ein hymyrraeth yn ofalus, wedi'i halinio ag anghenion Economi Cymru. Caiff dadansoddiad manwl o'r canlyniad a'r allbynnau arfaethedig mewn meysydd yr effeithir arnynt, ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn fuan.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y data sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r cynllun cyflenwi manwerthu, yn enwedig data sy'n cael eu defnyddio i asesu effaith anwastad yr heriau economaidd presennol ar y sector.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Cyhoeddir y Cynllun Cyflenwi Manwerthu (y Cynllun) ei gyhoeddi yn ystod y misoedd sydd i ddod. Bydd y cynllun yn amlinellu data a ddefnyddir fel tystiolaeth i gefnogi'r camau

gweithredu yn y Cynllun. Mae asesiad effaith hefyd wedi'i ddatblygu a bydd yn darparu adnoddau a data a ddefnyddir i asesu'r materion sectoraidd, a adlewyrchir yn y camau gweithredu a nodir. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio data swyddogol i ystyried y sefyllfa yng Nghymru ymhellach, yn ogystal â nodi unrhyw fylchau posibl a all fod.

Datblygwyd y cynllun mewn partneriaeth gymdeithasol â chynrychiolwyr o'r sector manwerthu, busnesau manwerthu, undebau llafur a Llywodraeth Cymru. Mae'r dull hwn o weithredu yn golygu bod pob parti sy'n rhan o'r bartneriaeth gymdeithasol wedi'i gynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun a nodi tystiolaeth ategol sy'n bwydo i mewn i'r camau gweithredu yn y Cynllun. Mae'r Cynllun yn amlinellu gwaith ychwanegol a wneir yn ystod oes y Cynllun er mwyn llenwi bylchau mewn gwybodaeth am y sector yng Nghymru ac yn nodi ymrwymiad i werthuso effaith y Cynllun ymhen dwy flynedd. Nod y dull gweithredu a amlinellir yw sicrhau y gall y Cynllun ymateb i'r dirwedd economaidd a'r pwysau dynamig a chyfnewidiol y mae'r sector manwerthu yn eu hwynebu.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw ddadansoddiad y mae wedi'i wneud ar effeithiau tebygol cyllideb ar dwristiaeth sydd â llai o adnoddau ac sy'n lleihau'r gwariant marchnata ar nifer yr ymwelwyr i Gymru.

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r gostyngiad yn llinell y gyllideb ar gyfer twristiaeth yn gyfran gymharol fach ac mae arbedion wedi'u gwneud mewn cyllidebau marchnata a datblygu, heb ganolbwyntio ar un maes penodol yn unig. Ni ragwelir y bydd nifer yr ymwelwyr yn lleihau, yn arbennig yn sgîl ymgyrchoedd lefel uchel, a gynhaliwyd ledled DU ac yn rhyngwladol, mewn perthynas â Chwpan y Byd FIFA.

Byddwn yn monitro'r sefyllfa yn agos drwy gydol y flwyddyn ac mae amrywiaeth o dystiolaeth gysylltiedig y gellir ei rhannu â'r Pwyllgor ar yr adeg briodol. Cynhelir arolygon pwrpasol rheolaidd er mwyn tracio'r galw o du defnyddwyr, cyfraddau trosi teithiau ac ymwybyddiaeth o'r farchnad a defnyddir pob un o'r rhain i lywio prosesau gwneud penderfyniadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod cynyddu nifer yr ymwelwyr gymaint â phosibl yn unol â'n huchelgeisiau yn ein strategaeth, Croeso i Gymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod 2023-24 ar faint y Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth.

Ymateb: **Derbyn**



Mae dyraniad cyfalaf gwerth £5m yn ein cyllideb ar gyfer 2023-24 gyda dwy brif gronfa gyfalaf ar gael er mwyn cefnogi prosiectau datblygu sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector, sef: Y Pethau Pwysig a'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

Mae'r Pethau Pwysig yn gronfa y bwriedir iddi gefnogi gwelliannau bach i seilwaith mewn cyrchfannau allweddol. Yn ddiweddar gwnaethom lansio cronfa gwerth £5m dros ddwy flynedd (£2.5m y flwyddyn) sydd ar agor ar gyfer ceisiadau gan awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol gydag uchafswm grant o £0.300m fesul cais.

Mae'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn ddyraniad blynyddol o £2.5m yn y gyllideb ar gyfer Datblygu Twristiaeth. Mae'r cyllid grant hwn yn galluogi Croeso Cymru i gyflawni ymrwymadau presennol a threalu dulliau newydd o helpu busnesau a chymunedau i ddatblygu'r cynnyrch twristiaeth.

Ochr yn ochr â'r rhaglenni cyfalaf hyn, mae gennym Gronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru gwerth £50m sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru sy'n dod â chyllid masnachol a chyllid grant at ei gilydd mewn un pecyn cyfunol o gymorth ariannol i ddarparu buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y sector twristiaeth a lletygarwch. Mae'n cynnig buddsoddiad gwerth rhwng £100,000 a £5m ac, hyd yn ddiweddar iawn, roedd y gronfa yn darparu pecyn cyfunol o gymorth yn seiliedig ar fenthyciadau ad-daladwy ac elfen grant o hyd at 20%. O ystyried yr anawsterau y mae'r sector wedi bod yn eu hwynebu yn sgil pandemig COVID-19 ac, yn fwy diweddar, effaith yr argyfwng costau byw, rwyf wedi cymeradwyo cynnydd yn yr elfen grant o 20% i 40% lle mae achos dros gynyddu'r elfen grant. Bwriedir i'r gronfa barhau i weithredu hyd at ei hadolygiad ffurfiol cyntaf ar ddiwedd 2024-25.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw achos o ailffocysu neu ailbroffilio arian sy'n gysylltiedig â'r Warrant i Bobl Ifanc a dylai ysgrifennu at Aelodau gyda'i farn ar ddyfodol y Warrant yn ystod hydref 2023.

Ymateb: **Derbyn**

Byddaf yn gweithio gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, y mae ei bortffolio hefyd yn dal cyllid sylweddol sy'n ymwneud â'r Warrant i Bobl Ifanc, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ar unrhyw achosion o ailffocysu neu ailbroffilio arian. Byddaf hefyd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am y cynnydd sydd wedi'i wneud a chynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n ymwneud â'r Warrant i Bobl yn yr hydref.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru gyflenwi manylion i'r ddau bwyllgor am sut mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cydweithio ar gamau i gymhell pobl ifanc i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i gostau byw uwch.

Ymateb: **Derbyn**

Gwnaethom gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar y Warant i Bobl Ifanc (2022) ar 8 Chwefror 2023.

Mae'r cyhoeddiad yn nodi'r amrywiaeth o bolisiâu a rhaglenni rydym wedi'u cyflwyno er mwyn cyrraedd y Garreg Filltir Genedlaethol bod '90% o bobl ifanc 16 i 24 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050' a chefnogi pobl ifanc a sefydliadau yn wyneb yr argyfwng costau byw.

Mae hyn yn cynnwys y fersiwn wedi'i diweddarau o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a fydd yn chwarae rôl allweddol yn adnabod yn gynnar y bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn yr ysgol a hyd at 18 oed.

Mae'n seiliedig ar ddeall eu hanghenion, sicrhau bod cymorth neu ddarpariaeth briodol ar gael a monitro eu datblygiad. Mae'r Fframwaith hefyd yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i atal digartrefedd ymhlith pobl ac yn ceisio sicrhau y caiff pobl ifanc eu nodi a'u cefnogi cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.

Ym mis Ebrill 2022, gwnaethom lansio Twf Swyddi Cymru Plws (JGW+), a ddisodlodd y rhaglenni Twf Swyddi Cymru a Hyfforddeiaeth presennol. O dan JGW+, mae pobl ifanc 16-18 oed yn cael cymorth unigolig er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyder, y sgiliau a'r profiad i symud ymlaen i ddysgu pellach, dod o hyd i swydd neu aros mewn cyflogaeth. Mae cymorthdaliadau cyflog o hyd at 50% o gyflog y chwe mis cyntaf ynghyd â hyfforddiant yn y gwaith ar gael i fusnesau sy'n cyflogi pobl ifanc 16 i 18 oed drwy'r cynllun.

Ers iddo gael ei lansio (ac erbyn mis Medi 2022), mae 3,470 o unigolion wedi dechrau ar JGW+, gyda 1,270 ohonynt yn cwblhau eu rhaglenni a mwy na 50% yn cael canlyniad cadarnhaol hyd yma.

Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom gyflwyno amrywiaeth o gymorth pellach er mwyn helpu pobl ifanc yn ystod yr argyfwng costau byw drwy leihau'r rhwystrau ariannol a all fod yn eu hatal rhag cael ymuno â'r rhaglen ac aros arni.

Mae'r cymorth ychwanegol yn cynnwys:

- Dyblu cyfradd y Lwfans Hyfforddi i £60;
- Lwfans prydau am ddim newydd;
- Caniatáu i unigolion hawlio eu holl gostau teithio (os ydynt yn cael hyfforddiant) fel mesur dros dro

- Ymestyn yr ystod oedran cymhwystra i gynnwys pobl ifanc 19 oed, ar gyfer cofrestru â'r Rhaglen.

Ar wahân i hyn, mae'r argyfwng costau byw yn her sylweddol i golegau ac, felly, mae angen inni edrych ar ffyrdd newydd o weithio. Bydd **Cronfa Fuddsoddi** newydd gwerth £5m yn galluogi darparwyr addysg bellach i ystyried ffyrdd creadigol newydd o weithio a chydweithio ag eraill yn y sector er budd dysgwyr.

O ran addysg uwch, rydym eisoes wedi penderfynu y bydd lefel y cymorth a ddarperir i fyfyrwyr yn gysylltiedig â gwerth y Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn y flwyddyn ariannol 2023-24, bydd y **cymorth cynhaliacth** a delir i fyfyrwyr addysg uwch amser llawn a rhan amser o Gymru yn cynyddu 9.4% ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynnydd o 2.8% ar gyfer myfyrwyr sy'n byw fel arfer yn Lloegr.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r holl gamau eraill a gymerwyd hyd yma.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cyhoeddi fersiwn derfynol ei strategaeth arloesi newydd ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Ymateb: **Derbyn**

Cyhoeddwyd y Strategaeth Arloesi, *Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach* ar 27 Chwefror. Cyhoeddir cynllun cyflawni yn fuan a fydd yn rhoi rhagor o fanylion am nodau, cerrig milltir camau gweithredu a mesurau o dan bob cenhadaeth.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw effaith y bydd ei strategaeth arloesi newydd neu unrhyw gynlluniau cysylltiedig yn ei chael ar ariannu a llinellau yn y gyllideb.

Ymateb: **Derbyn**

Rwyf wedi ymrwmo i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ôl blynyddoedd 1, 3 a 5 ar yr effeithiau y mae'r Strategaeth Arloesi newydd yn eu cael ar gyllid, yn unol â'n cynlluniau adolygu a gwerthuso.

Mae'r Strategaeth yn nodi'n glir y bydd llai o arian ar gael i gefnogi arloesi yng Nghymru a llai o reolaeth drosto. Felly, mae'n cynnig y dylai fod gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth gynnull i ddod â rhanddeiliaid yn agosach at ei gilydd er mwyn datblygu ceisiadau mwy o faint a mwy cymhellol am fwy o gyllid cystadleuol gan y DU a chyllid cystadleuol Rhyngwladol a ddylai wella llinellau yn y gyllideb yn y tymor canolig.

Wrth wneud hyn, byddwn yn gweithio gydag UKRI, Innovate UK ac eraill er mwyn cyflawni eu nodau datganedig o wneud buddsoddiadau pellach sylweddol yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU y tu allan i dde-ddwyrain Lloegr.

Mae tirwedd ariannu ymchwil a datblygu yn y DU yn newid (e.e. ymgysylltu â Horizon Ewrop) a bydd angen i ecosystem Cymru fod yn agored i gyfleoedd gwahanol a gwell i sicrhau cyllid arloesi.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â gwaith i amcangyfrif ei gwariant ar fewnfuddsoddiad a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor.

Ymateb: **Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai'n ddefnyddiol darparu'r gyllideb mewnfuddsoddi i'r Pwyllgor er mwyn nodi faint o gyllid sydd ar gael i gefnogi cwmnïau sy'n ceisio sefydlu gweithrediad neu ehangu cyfleuster presennol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae ymdrechion blaenorol i nodi'r gyllideb lawn sydd ar gael i gefnogi mewnfuddsoddiad wedi cadarnhau bod sawl llinell wahanol yn y gyllideb y daw cyllideb ohonynt yn dibynnu ar natur y buddsoddiad a/neu'r gweithgaredd sy'n cael ei gyflawni i ddenu buddsoddwyr posibl i Gymru. Mae hyn wedi golygu na fu'n bosibl nodi'r gyllideb lawn i gefnogi mewnfuddsoddiad yn y gorffennol ac na fydd yn bosibl ei hamcangyfrif ar gyfer 2023-24. At hynny, mae llawer o'r llinellau hyn yn y gyllideb yn gymorth cyffredinol sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru, yn ogystal â buddsoddwyr, a thynnwyd cyllideb o'r llinellau hyn ar sail angen.

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhedeg Safleoedd Rheoli Ffiniau.

Ymateb: **Derbyn**

Byddaf yn cynnwys gwybodaeth am yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhedeg Safleoedd Rheoli Ffiniau yn y diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau Safleoedd Rheoli Ffiniau a ddarperir i'r pwyllgor, fel y cytunwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 21.

**Argymhelliad 21.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch datblygiadau Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan gynnwys manylion y trafodaethau ar y mater rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Ymateb: **Derbyn**

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi Model Gweithredu Targed Ffiniau yn fuan. Ar ôl hynny, gallaf roi diweddariad i'r Senedd a byddaf yn parhau i roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor naill ai'n bersonol neu'n ysgrifenedig ar y gyfundrefn Ffiniau newydd a'r cynlluniau ar gyfer Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru.

**Argymhelliad 22.** Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cael arian gan Drysorlys y DU am wariant y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran perygl ynghylch paratoi i greu safleoedd rheoli ffiniau. Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o'r arian y mae wedi'i wario 'o ran perygl' ar Safleoedd Rheoli Ffiniau a faint o hynny sydd wedi cael ei ad-dalu gan Lywodraeth y DU.

Ymateb: **Derbyn**

Yn 2020-21 y mynnodd Lywodraeth y DU am y tro cyntaf fod Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer archwiliadau newydd ar nwyddau ar Safleoedd Rheoli Ffiniau. Ers hynny, bu'n rhaid inni stopio a dechrau gwaith oherwydd oedi gan Lywodraeth y DU.

Dros y ddwy flwyddyn ariannol gyntaf (2020-21 a 2021-22), aeth Llywodraeth Cymru i wariant ar gyfer costau yn gysylltiedig â gwaith dylunio a'r rhaglen a oedd yn cyfateb i £6.1m, y gwnaethom gytuno i'w dalu o adnoddau Llywodraeth Cymru ei hun.

Ar gyfer 2022-23, roedd Llywodraeth y DU ond wedi ymrwmo i dalu costau adeiladu sy'n gwbl angenrheidiol ac ni ddarparwyd unrhyw gyllid yn ein Setliad Cyllidebol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â rhaglen Safleoedd Rheoli Ffiniau. Nes i £3.4m gael ei dderbyn gan Lywodraeth y DU fel rhan o Amcangyfrifon Atodol y DU ym mis Ionawr, aeth Llywodraeth Cymru i'r gwariant hwn 'o ran perygl'.

Mae'r cyllid a gafwyd yn talu am ein holl wariant ar ffiniau ar gyfer 2022-23, gan gynnwys costau pellach yr aed iddynt mewn perthynas â gwaith dylunio a'r rhaglen. Mae hefyd yn galluogi ein contractwr i baratoi'r safle ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau yng Nghaergybi. Mae cyfres o gostau rydym wedi ymrwmo iddynt yn 2023-24, sydd unwaith eto yn risg i Lywodraeth Cymru nes i Lywodraeth y DU eu had-dalu iddi. Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw gyllid eto ar gyfer y rhaglen Ffiniau yng Nghymru ar gyfer 2023-24.





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00117/23

Ian Price  
CBI Director Wales  
[Ian.Price@cbi.org.uk](mailto:Ian.Price@cbi.org.uk)

11 April 2023

Dear Ian,

I understand you spoke to my officials last Thursday, 6<sup>th</sup> April about the reported allegations of misconduct at the CBI.

These allegations are serious, include criminal behaviour and will be personally devastating for the victims involved. Whilst we note that none of the allegations made to date appear to relate to CBI Wales, we cannot be assured that employees are unaffected given that the Wales operation functions within a wider, single CBI. The welfare of employees here will be impacted by the culture and behaviours of the body's UK leadership but I hope that your engagement on the next steps in this process will help to demonstrate that the culture and behaviours within the Wales operation are in a much better place.

We recognise the courage it takes for anyone to speak out after experiencing abuse, harassment, or bullying. The Welsh Government is committed to tackling harassment, bullying and all forms of violence against women head on. Women and girls should be and feel safe in all aspects of their lives, including the workplace. We expect the same level of commitment from all our partners, stakeholders and citizens, including the CBI.

My officials confirmed my intention to pause Ministerial engagement and bilaterals between senior officials and the CBI. Officials at Deputy Director level will continue to engage with the CBI in circumstances where other social partners and/or stakeholders are present. However, this engagement will also be contingent upon assurances regarding the handling of the reported allegations and the CBI's commitment to taking swift and appropriate action pending the outcome of the independent investigation that I understand is underway. I note that the CBI's Director General has now been dismissed and that three employees have been suspended. It is encouraging to see swift action at this stage and the commitment to instigate a root and branch review of culture, governance and processes within the organisation.

I would be grateful for the clarification that you can provide on the following:

- What are the Terms of Reference for the independent investigation and will these be published?

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 42  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- What is the timescale for the investigation, who will it report to and again will its recommendations be published?
- Has a robust whistle-blowing mechanism been established so that others can bring forward concerns safely and anonymously?
- Has the CBI referred any of these matters to the Police and will it co-operate fully with any police investigations that may ensue?
- Is the CBI currently engaging any external support to improve procedures & responses to inappropriate behaviour in the workplace?
- Does the CBI have a workplace sexual harassment policy? If so, how often is this reviewed?
- What processes and procedures does the CBI have in place to protect staff from sexual harassment in the workplace?
- What avenues for reporting concerns are currently in place?
- What grievance processes are used to investigate complaints and carry out disciplinarys?
- Are staff signposted to any external helplines for support?

Further to this and for clarity, I would also expect to see:

- A thorough and transparent independent external review of existing processes and disciplinary procedures.
- A review of workplace cultures and staff feedback to establish a baseline from which to improve. This can include a climate survey, anonymised staff questionnaires & analysis of areas of the organisation where there is a significant gendered power discrepancy.
- Training for all staff in understanding what sexual harassment is, the impact it has and how to maintain a safe and equal workplace.
- Clear signposting to support helplines, including [Live Fear Free](#) and [Rights of Women](#) sexual harassment at work helpline and the [ACAS](#) helpline.
- Regular monitoring of the process and procedures, making modifications where necessary to prevent sexual harassment from happening.

It is important that action is taken to ensure that CBI employees working in Wales receive the care and assistance they might need. I urge the CBI and its members in Wales to engage with our ground-breaking Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 and to make use of the tools available to establish a best practice approach that supports women. We also provide support for the Live Fear Free, a free, confidential helpline for anyone experiencing any form of violence against women, harassment or abuse. The service can be accessed in several different ways and I would urge you to ensure that all employees in Wales are signposted to the services available to them at the details below. Regardless of whether employees in Wales have highlighted concerns to management, it is important that they are made aware of the free, confidential and expert support that is available to everyone in Wales:

Phone: 0808 80 10 800

Text: 07860077333

Live Chat: [www.gov.wales/live-fear-free](http://www.gov.wales/live-fear-free)

e-mail: [info@livefearfreehelpline.wales](mailto:info@livefearfreehelpline.wales)

The CBI's status as a social partner in Wales is significant. It's wider role affords the organisation a platform that allows it influence our civic and economic life. We must all recognise and act upon the role our institutions play in determining how women and girls feel about their place in society, and their safety.

While these allegations are incredibly serious, the CBI is not alone in facing these issues and the VAWDASV Act exists because we recognise the scale of injustice faced by so many, whether in work, in the community or at home. The expertise and resources we



support are available to help organisations embrace best practice to prevent and act upon VAWDASV.

I hope that the CBI will seek to adopt such an approach via a thorough and transparent process and that here in Wales we can then explore how the essential lessons from this work can support business cultures that tackle VAWDASV at its stem in a fairer Wales.

I recognise that urgent work is now required to swiftly establish that robust process and I look forward to your response.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**Vaughan Gething AS/MS**  
Gweinidog yr Economi  
Minister for Economy

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith  
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a  
Chysylltiadau Rhyngwladol  
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

19 Ebrill 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

### Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, sydd ar ddod, cyn dadl flynyddol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn yr hydref. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhelir gyda'r cyhoedd, a gweithdy gydag aelodau o'r Senedd leuenctid.

### Digwyddiad i randdeiliaid: Wrecsam

Bydd digwyddiad rhanddeiliaid eleni yn cael ei gynnal ar gampws Prifysgol Glyndŵr (Canolfan Catrin Finch) yn Wrecsam fore Iau 15 Mehefin. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ar y cynigion disgwylidig yn y gyllideb ddrafft, yn ogystal â'u safbwyntiau ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod gwaith ar draws y pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad. Os oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn



dod i'r digwyddiad, dylech gysylltu â'r tîm clericio erbyn 22 Mai, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: [SeneddCyllid@Senedd.Cymru](mailto:SeneddCyllid@Senedd.Cymru).

## Ceisio barn y cyhoedd yng Nghymru drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Mae'r tîm wedi cynnal ymarferion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw llunio astudiaeth hydredol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr drwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r hyn a gafwyd y llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

### Senedd Ieuentid Cymru

Y llynedd, i ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy gydag Aelodau o'r Senedd Ieuentid. Roedd y profiad o glywed yr Aelodau ifanc hyn yn siarad yn agored am y materion sy'n ymwneud â nhw ac sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt yn hynod fuddiol. Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith amhrisiadwy hwn, a byddwn yn gwahodd yr Aelodau ifanc i gymryd rhan mewn gweithdy eto eleni.

### Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 12 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio'r ddadl honno ac yn bwydo i mewn iddi, a dyma fydd y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei llunio yn yr hydref. Fel bob amser, byddem yn croesawu cyfranogiad Cadeiryddion y Pwyllgorau, ynghyd â'r Aelodau eraill, fel rhan o'r ddadl hon, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau'r Senedd yn llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

### Y dull o graffu ar y Gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeiryddion cyn hir ynglŷn â dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen ar ôl i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio sicrhau bod proffil ac effeithiolrwydd y gwaith craffu a wneir ar y gyllideb yn y Senedd yn destun gwella parhaus, a bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses honno. Fel y gwyddoch, rydym ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar gynigion i ddiwygio'r [Protocol ar gyfer Proses y Gyllideb](#), sy'n amlinellu'r

ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd o ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

Yn ogystal, yn ystod cylch cyllideb y llynedd, cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â'r pwyllgorau eraill ar y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, gyda'r bwriad o geisio gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu. Ysgrifennais at y Cadeiryddion ar y mater hwn ar 8 Mawrth, ac rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgorau sydd wedi ymateb. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau am y datblygiadau sy'n dod i'r amlwg.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru Caerdydd  
CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

20 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am dystiolaeth newydd sydd wedi ymddangos ynghylch costau gweithredu Bil Bwyd Cymru.

Mae'r [Memorandwm Esboniadol](#) sy'n cyd-fynd â Bil Bwyd Cymru yn nodi 'Gwnaed tybiaethau ychwanegol yn dilyn cyswllt â swyddogion Llywodraeth yr Alban a luniodd amcangyfrifon costau ar gyfer y Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban).' (paragraff 331). Yn dilyn gwaith cyfathrebu rheolaidd fy swyddogion â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban, mae amcangyfrifon mwy cyfredol bellach ar gael ar gyfer costau gweithredu Bil Bwyd Cymru.

Mae'r costau amcangyfrifedig ar gyfer elfennau cymharol o Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022 wedi cynyddu yn sylweddol o'u cymharu â'r rheini yr oedd Llywodraeth yr Alban yn eu disgwyl pan oedd yn Fil, ac a lywiodd Femorandwm Esboniadol Bil Bwyd Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon a ddyfynnir yn y Memorandwm Esboniadol o ran costau i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru wrth weithredu Bil Bwyd Cymru, wedi eu tanamcangyfrif yn sylweddol. Rwy'n tynnu eich sylw at y tabl isod sy'n gosod y costau amcangyfrifedig sydd wedi eu cymryd yn uniongyrchol o Femorandwm Esboniadol Bil Bwyd Cymru, a'u cymharu â'r costau cyfredol y mae Llywodraeth yr Alban bellach wedi eu cyfrifo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Costau	Costau amcangyfrifedig Bil Bwyd (Cymru) (yn seiliedig ar amcangyfrif costau 2022 Bil Cenedl Bwyd Da (Yr Alban))	Costau amcangyfrifedig Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) Act – Llywodraeth yr Alban Mawrth 2023
Amser swyddogion LIC i greu <b>Strategaeth Fwyd Genedlaethol</b> a sefydlu'r Comisiwn Bwyd.	£20,960 <sup>[1]</sup> y flwyddyn	£227,600 y flwyddyn am dîm o bump uwch swyddog gweithredol (cymysgedd o swyddi llawn amser a rhan amser), ag eithrio cymeradwyaeth dirprwy gyfarwyddwr, a mewnbwn a chyngor gan gynghorwyr cyfreithiol, economegwyr, timau cyfathrebu a mewnbwn gan dimau nad ydynt yn ymwneud â bwyd.
<b>Y Comisiwn Bwyd</b>	rhwng £750,000 - £1,500,000	£1.1 miliwn y flwyddyn
